EISTEDDFOD GADEIRIOL ABERGORLECH 2023

Daeth afiaith gŵyl ddiwylliannol i Abergorlech unwaith eto eleni trwy gynnal Eisteddfod flynyddol Capel Newydd yn Neuadd Abergorlech ar 25 Tachwedd.

Beirniaid anrhydeddus yr eisteddfod oedd y Fns Llinos Jones, Canolfan S4C Yr Egin (Llên ac Adrodd) a'r Fns Sara Davies, Prengwyn (Cerdd). Cyfeilydd di-flino yr eisteddfod oedd Jonathan Morgan, Y Tymbl sy'n gaffaeliad i gymaint o eisteddfodau lleol.

Llywydd yr eisteddfod oedd **Dr Hefin Jones**, Treganna, Caerdydd sy'n enedigol o Bencader. Yn dilyn cyfnodau yn ysgolion lleol llwyddod i ddod yn fyfyriwr yng Ngholeg y Brenin, Prifysgol Llundain. Yno enillodd Radd Baglor mewn Gwyddoniaeth a Diploma AKC gyda Chlod yn yr Adran Ddiwinyddol a doethuriaeth o Goleg Imperial, Prifysgol Llundain. Tair blynedd gyda chyngor ymchwil Amaeth cyn ail ymuno â'r *Imperial* ac arwain tîm mewn prosiect, y cyntaf o'r fath ar effeithiau newid ac effaith cynnydd ar Co2 ar ffrwythlonder ac amrywiaeth bywyd y pridd.

Yna yn 2000 i Brifysgol Caerdydd a lledodd ei arbenigrwydd a chynghori trwy gysylltu â cholegau yn Siapan, Ffrainc, a dod yn Aelod Rhyngwladol mewn Prifysgol yn UDA.

Yn ystod ei ieuenctid profiad gydag Adran Ieuenctid Annibynnwyr y Byd a threulio blwyddyn (2004-2005) yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Yn 2007 daeth yn Urdd Derwydd er Anrhydedd yng Ngorsedd y Beirdd a'i adnabod fel *Hefin Pencader*. Daeth yn berchen ar Fedal Gwyddoniaeth a Thechnoleg mewn cyflwyniad yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018.

Braf oedd clywed y llywydd yn rhannu ei atgofion am ardal Abergorlech a'r eisteddfod mewn araith ddiffuant, ac yntau â gwreiddiau ei deulu yn hannu o'r cylch gyda nifer fawr o'i gyndeidiau bellach yn gorwedd ym mynwent Capel Newydd. Nododd bod yr achlysur yn gyfle i gefnogi ein diwylliant – mae'n bwysicach na'i gymryd yn ganiataol. Diolchodd i'r pwyllgor trefnu.

Un o uchafbwyntiau yr eisteddfod yn ddiau oedd defod y cadeirio o dan ofal y Parchg. Delyth Wilson, a gwelwyd wyneb cyfarwydd i eisteddfodau'n cipio'r wobr sef: **Megan Richards**, Aberaeron. Hon oedd y bedwaredd cadair eisteddfodol ar ddeg i Megan sef *Merch y Mynydd* ennill.

Tasg y cystadleuwyr eleni oedd cerdd rydd ar y testun *Ysbrydoli* a'r wobr: cadair fechan a grewyd gan Eirian George, yn rhoddedig gan David Tom ac Eryl er cof annwyl am eu rhieni: Emrys ac Annie Thomas, Blaennantygarn, Abergorlech.

Enillydd Tlws yr Ifanc oedd **Alaw Fflur Jones** o Felinfach, merch ifanc ddawnus a oedd wythnos yn gynharach wedi ennill coron Eisteddfod Genedlaethol Mudiad y Ffermwyr Ifainc.

Diweddwyd y noson gyda chystadlaethau'r Her Llefaru a'r Her Unawd a enillwyd gan ffyddloniaid i'r eisteddfod: Maria Evans, Rhydargaeau a Gerwyn Rees, Porthyrhyd.

Yn ennill tlysau y cystadleuwyr mwyaf addawol o dan 16 oed oedd **Iwan Thomas**, Pontarddulais (Adran Gerdd) a **Gwenan Lloyd Owen**, Llanllwni (Adran Adrodd).
Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gefnogi a chyfrannu tuag at yr Eisteddfod unwaith eto.

Enillwyr eraill yr Eisteddfod:

Adran Gerdd
Unawd dan 6: 1. Martha Nel, Caerfyrddin

Unawd dan 8: 1. Ifan Morris, Llandysul 2. Greta Fflur, Caerfyrddin

Unawd dan 10: 1. Gruff Davies, Llandyfriog 2. Sara Lewis, Mydroilyn 3. Elan Douch, Cwmann

Unawd dan 12: 1. Iwan Thomas, Pontarddulais

Canu Emyn dan 16:
1. Brychan Williams, Llambed
2. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni
Cyd. 3 Iwan Thomas, Pontarddulais a Gruff Davies, Llandyfriog.

Unawd dan 16: 1. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Brychan Williams, Llambed

Canu Penillion dan 16:
1. Iwan Thomas, Pontarddulais 2. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni 3. Gruff Davies, Llandyfriog

Canu Gwerin dan 16:
1. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Gruff Davies, Llandyfriog 3. Brychan Williams, Llambed

Canu Piano neu Unrhyw offeryn cerdd dan 16:
1. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni 2. Iwan Thomas, Pontarddulais 3. Gruff Davies, Llandyfriog

Sgen ti dalent: 1. Olwen Roberts, San Clêr 2. Alaw Fflur Jones, Felinfach

Canu Emyn rhwng 16-50: 1. Gerwyn Rees, Porthyrhyd 2. Bethan Griffiths, Abergorlech

Cenwch i'm yr Hen Ganiadau: 1. Gerwyn Rhys, Porthyrhyd

Her Unawd Agored: 1. Gerwyn Rhys, Porthyrhyd

Adran Adrodd

Adrodd dan 6: 1. Martha Nel, Caerfyrddin

Adrodd dan 8: 1. Greta Jones, Caerfyrddin 2. Ifan Morris, Llandysul

Adrodd dan 10: 1. Elan Douch, Cwmann 2. Gruff Davies, Llandyfriog

Adrodd dan 12: 1. Celyn Fflur Davies, Llandyfriog 2. Iwan Thomas, Pontarddulais.

Ateb 6 cwestiwn dan 16:
1. Celyn Fflur Davies, Llandyfriog 2. Gruff Davies, Llandyfriog 3. Iwan Thomas, Pontarddulais

Darllen o'r ysgrythur dan 16:
1. Iwan Thomas, Pontarddulais
2. Celyn Fflur Davies, Llandyfriog
Cyd 3. Gruff Davies, Llandyfriog a Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni.

Adrodd dan 16: 1. Olwen Roberts, San Clêr 2. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni

Adroddiad Digri dan 16: 1. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni

Cystadleuaeth y Dysgwyr: 1. Paul Wilson, Abergorlech

Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd:
1. Megan Richards, Aberaeron 2. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni 3. Olwen Roberts, San Clêr

Her Adroddiad Agored: 1. Maria Evans, Rhydargaeau 2. Bethan Griffiths, Abergorlech

Llenyddiaeth
Tlws yr Ifanc:
1. Alaw Fflur Jones, Felin-fach 2. Hanna Evans (Ysgol Bro Teifi) 3. Lowri Jones (Ysgol Bro Teifi)

Brawddeg: 1. Myfanwy Roberts, Llanrwst

Englyn: 1. John Thomas, Cwmann

Brysneges: 1. Myfanwy Roberts, Llanrwst

Limrig: 1. John Thomas, Cwmann